

Crynodeb o'r dystiolaeth

Deiseb P-05-785 Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd

Mai 2018

Cyflwyniad

Ers mis Tachwedd 2017, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi rhoi ystyriaeth fanwl i ddeiseb ynghylch trwydded forol ar gyfer gwaredu deunydd a garthwyd o wely'r môr yn aber Afon Hafren, fel rhan o'r gwaith o adeiladu gorsaf bŵer niwclear Hinkley Point C. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys trosolwg o ystyriaethau'r Pwyllgor ynghylch y ddeiseb a chrynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

1. Y ddeiseb

1. Cyflwynwyd deiseb rhif P-05-785, Atal Trwydded Forol 12/45/ML i ollwng gwaddodion morol ymbelydrol o safle niwclear Hinkley Point yn nyfroedd glannau Cymru ger Caerdydd, gan Tim Deere-Jones. Casglodd 7,171 o lofnodion ac fe'i trafodwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor Deisebau ar 27 Tachwedd 2017.



Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru i atal y drwydded y mae wedi'i rhoi i NNB Genco, sy'n caniatáu gollwng hyd at 300,000 o dunelli o ddeunydd a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, yn nyfroedd glannau Cymru.

Rydym hefyd yn gofyn bod cyfnod atal y drwydded yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i sicrhau bod asesiad llawn o'r effaith Amgylcheddol, dadansoddiad radiolegol cyflawn a samplu craidd yn cael eu cynnal o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru, a bod ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawriad llawn o dystiolaeth annibynnol ac ymgynghoriad cyhoeddus yn cael eu cynnal cyn rhoi caniatâd i ollwng unrhyw waddodion o Hinkley.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae Trwydded Forol 12/45/ML, a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn caniatáu gwaredu hyd at 300,000 o dunelli metrig o waddod morol a halogwyd yn ymbelydrol, wedi'i garthu o wely'r môr ar safle pwerdy niwclear Hinkley Point, ar safle dympio morol Cardiff Grounds yn agos at arfordir de Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i waith ddechrau ar y ddwy bibell newydd yn adweithydd niwclear Hinkley C.

Mae'r gwaddodion sydd i'w carthu wrth ymyl y pibellau gwastraff a ddefnyddir ar gyfer gollyngiadau o bedwar adweithydd presennol Hinkley. Mae dadansoddiad a gomisiynwyd gan asiantaethau Llywodraeth y DU yn dangos bod y gwaddod wedi'i halogi gan wastraff ymbelydrol a ryddhawyd i'r môr dros gyfnod o 50 mlynedd a mwy o waith ar safle Hinkley. Mae'r cyfrifiadau sy'n deillio o'r data swyddogol yn nodi y gallai'r gwaddodion carthu arfaethedig fod yn dal o leiaf 7 biliwn o Bqs o ymbelydredd, ond mae'r adroddiadau yn nodi y byddai'r symiau y byddai pobl yn dod i gysylltiad â nhw'n isel iawn.

Mae gollyngiadau ymbelydrol Hinkley i'r môr yn cynnwys dros 50 o radioniwclidau, ond dim ond tri ohonynt yr ymchwiliwyd iddynt drwy'r dadansoddiad. Felly, bydd cynnwys ymbelydredd gwirioneddol y gwaddodion yn llawer uwch na'r hyn a ddangosir drwy'r dadansoddiad sydd ar gael. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael hefyd yn awgrymu mai dim ond samplau arwynebol (0 i 5cm o ddyfnder) o'r gwaddodion a ddadansoddwyd, er bod ymchwil samplau craidd o fannau eraill ym Môr Iwerddon yn dangos y gall crynodiadau fod hyd at bum gwaith yn uwch ar ddyfnderoedd islaw 5cm.

Er bod deunydd ymbelydrol gwaddodol yn debygol o wasgaru i ddechrau, mae astudiaethau'n profi ei fod wedyn yn ailgronni ar wastadeddau llaid arfordirol ac aberol a morfeydd heli, a'i fod hefyd yn gallu cael ei drosglwyddo o'r môr i'r tir yn sgil gwyntoedd o'r môr a llifogydd arfordirol. Rydym yn nodi nad oes ymchwil ar yr hyn sy'n digwydd i ymbelydredd o'r fath yn nyfroedd glannau de Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn pryderu nad oes gwaith ymchwil digonol wedi digwydd ynghylch y risgiau amgylcheddol a'r risgiau i iechyd pobl yn sgil y gwaredu arfaethedig, a bod unrhyw gasgliadau sy'n seiliedig ar y data anghyflawn presennol yn annibynadwy.

2. Cafodd y ddeiseb lefel fawr o gefnogaeth mewn cyfnod byr. Er i'r drwydded forol¹ dan sylw gael ei chyflwyno'n wreiddiol yn 2012 a'i chymeradwyo yn 2014, ni ddaeth y mater at sylw'r cyhoedd tan dymor yr hydref 2017. Bwriedir i'r gwaith a gwmpesir gan y drwydded – sef gwaredu, yn safle Cardiff Grounds ger arfordir de Cymru, waddodion a deunydd arall a garthwyd o safle ger Hinkley Point – ddechrau yn haf 2018.

3. Felly, nid yw'r Pwyllgor Deisebau wedi cael llawer o amser o gwbl i ystyried y materion a godir yn y ddeiseb. Yn yr amser a oedd ar gael, mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i gasglu llawer iawn o dystiolaeth ysgrifenedig gan bartïon sy'n ymwneud â'r broses drwyddedu, Llywodraeth Cymru a'r deisebydd. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r deisebydd, EDF Energy, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas).²

4. O gofio'r amserlen dynn a nodwyd eisoes, bu'n rhaid i ni gyflwyno'r dystiolaeth a gafwyd heb fawr ddim sylwebaeth a heb ddod i gasgliadau na llunio argymhellion cadarnhaol. Dewiswyd dilyn y trywydd hwn er mwyn sicrhau y gellir cynnal dadl ar y dystiolaeth yn y Cyfarfod Llawn mewn modd amserol.

2. Y cefndir

Trwydded Forol 12/45/ML

5. Ar 11 Gorffennaf 2014, cyhoeddwyd trwydded forol 12/45/ML gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd yn gweithredu ar ran yr Awdurdod Trwyddedu (Gweinidogion Cymru), i'r trwyddedai, NNB Genco, is-gwmni o dan berchenogaeth lawn EDF Energy.

6. Mae'r drwydded ar gyfer gwaredu gwaddodion sy'n cael eu carthu fel rhan o'r gwaith o adeiladu system dŵr oeri i orsaf bŵer niwclear Hinkley Point C yng Ngwlad yr Haf, de-orllewin Lloegr. Mae EDF Energy yn adeiladu dau adweithydd niwclear newydd yn Hinkley Point C, a fydd yn gallu cynhyrchu cyfanswm o 3,260MW o drydan. Mae'r safle wedi ei leoli ger Hinkley Point B, sy'n weithredol ar hyn o bryd, a Hinkley Point A, sy'n cael ei ddatgomisiynu.³

¹ Cyflwynwyd dau gais ar wahân am fod y deunydd a garthwyd yn deillio o ddau safle, ond dim ond un drwydded a gyflwynwyd.

² Mae manylion llawn, gan gynnwys yr ohebiaeth a ddaeth i law a thrawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth ar gael [ar-lein](#).

³ Rhagor o wybodaeth: EDF Energy, [Hinkley Point C](#).

7. Esboniodd EDF Energy ddiben y drwydded mewn briff ysgrifenedig:

“As part of the construction of Hinkley Point C, we will be dredging sediment from the seabed off the Hinkley Point C site ahead of the drilling of six vertical shafts for the cooling water system. The cooling water system is a significant piece of infrastructure, which involves tunnelling more than 3km out into the Bristol Channel.

In order to do this, it is necessary to dredge the immediate area where we will be installing the vertical shafts. This process will take in the region of 3-6 months, and we will begin to dredge the area in summer 2018.”⁴

8. Amcangyfrifir y bydd hyd at 200,000 metr³ o ddeunydd yn cael ei osod ar gychod a'i gludo i safle Cardiff Grounds⁵ i gael ei ollwng.

9. Mae Adran 9 o'r drwydded yn nodi amodau penodol y prosiect. Mae nifer o'r rhain wedi bod yn ganolog i'r broses o ystyried y ddeiseb hon, gan gynnwys:

9.1 The Licence Holder must submit a proposal for a monitoring programme of the disposal site and immediate environs to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority for written approval at least **12 weeks** before any disposal operation. The scheme will include details of pre, during and post disposal operation surveys, and any actions to be taken as a consequence of the survey findings. The purpose of the scheme will be to enable the avoidance of significant build up of material and any consequent shallowing.

[...]

9.3 The Licence Holder must submit a proposal for a sediment sampling scheme of the source sites and immediate environs to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority for written approval at least 6 months before any disposal operation to occur after 4th March 2016. The scheme will include details of sampling grid, analyses suites (including any appropriate radiological assessment) and proposed format of a report determining the suitability of the material for disposal at site LU110 along with timescales for carrying out these actions.

9.4. The Licence holder must ensure the sediment sampling must be undertaken in line with the agreed scheme, as referenced in paragraph 9.3. Sampling scheme reports must be submitted to Natural Resources Wales acting on behalf of the Licensing Authority within the timescales agreed within the scheme.

⁴ EDF Energy – **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C**, a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ar 17 Tachwedd 2017 (PDF, 241KB)

⁵ Gellir gweld lleoliad Cardiff Grounds yn: **Porthol Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru**

9.5. The Licence Holder must ensure that no material is deposited after 4th March 2016 without written confirmation from NRW, acting on behalf of the Licensing Authority, that they are satisfied the material is suitable for deposit at site LU110.

Trwyddedu Morol

10. Mae'r ddeddfwriaeth allweddol sy'n cwmpasu'r drefn trwyddedu morol wedi'i chynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (Deddf y Môr).⁶ O dan Adran 66 o Ddeddf y Môr, mae gweithgareddau morol trwyddedadwy yn cynnwys:

- Gollwng unrhyw sylwedd neu beth yn y môr neu ar wely'r môr neu oddi tano o:
 - Unrhyw gerbyd, llestr, awyren neu strwythur morol;
 - Unrhyw gynhwysydd sy'n arnofio; neu
 - Unrhyw strwythur ar dir a adeiladwyd neu a addaswyd yn gyfan gwbl neu'n bennaf at y diben o ollwng unrhyw solidau yn y môr.
- Defnyddio unrhyw gerbyd, llestr, awyren, strwythur morol neu gynhwysydd sy'n arnofio i symud ymaith unrhyw sylwedd neu beth oddi ar wely'r môr; a
- Gwneud unrhyw fath o garthu, boed hynny'n cynnwys tynnu unrhyw ddeunydd o'r môr neu o wely'r môr ai peidio.

11. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu ar gyfer dyfroedd Cymru. Cafodd y broses o weithredu'r gyfundrefn trwyddedu morol yn y rhanbarth fewnforol ei dirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2013, a hynny drwy Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013.⁷ Cyn sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cymru oedd yn ymdrin â thrwyddedu morol.

12. Mae Adran 69 o Ddeddf y Môr yn nodi bod yn rhaid i'r awdurdod trwyddedu, wrth benderfynu ar gais, roi sylw i'r materion a ganlyn:

- (1a) Yr angen i warchod yr amgylchedd,
- (1b) Yr angen i warchod iechyd pobl,

⁶ [Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009](#)

⁷ [Gorchymyn Trwyddedu Morol \(Dirprwyo Swyddogaethau\) \(Cymru\) 2017](#)

▪ (1c) Yr angen i beidio amharu ar weithgareddau dilys eraill yn y môr, a'r cyfryw faterion eraill sy'n berthnasol ym marn yr awdurdod.

13. O ran pwynt 1c, caiff yr awdurdod trwyddedu gynnal asesiad effaith amgylcheddol o dan Reoliadau Gwaith Morol (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2007 (fel y'u diwygiwyd)⁸ ac asesiad rheoliadau cynefinoedd o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.⁹ Roedd drafft o'r cynllun morol i Gymru yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar, ond gan nad oes cynllun morol ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, rhaid ystyried Datganiad Polisi Morol y DU.¹⁰ Yn ogystal, rhaid i weithgareddau gydymffurfio, inter alia, â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol Ewropeaidd¹¹ a Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop.¹²

Rôl Gweinidogion Cymru

14. Er bod y cyfrifoldeb am drwyddedu morol wedi'i ddirprwyo i Cyfoeth Naturiol Cymru, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am bwerau penodol yn unol â deddfwriaeth.

15. Yn Lloegr, o dan y *Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Diwygio) 2015*, gall yr Ysgrifennydd Gwladol alw cais trwyddedu i mewn.¹³ Nid yw Gorchymyn Dirprwyo Cymru yn cynnwys y fath broses galw i mewn (adfer).

16. Mae Adran 72 o Ddeddf y Môr yn darparu gweithdrefn ar gyfer amrywio, atal neu ddirymu trwydded. Mae nifer o resymau dros atal trwydded, gan gynnwys achosion lle bu newid mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu iechyd pobl (3a), neu yn sgil gwybodaeth wyddonol bellach sy'n ymwneud â'r naill neu'r llall o'r ddau fater hynny (3b). Mae Adran 102 o Ddeddf y Môr yn caniatáu i'r awdurdod gorfodi (Gweinidogion Cymru) gyhoeddi hysbysiad at ddibenion atal gweithgarwch, yn amodol ar fodloni nifer o feini prawf.

17. Mae Adran 100 o Ddeddf y Môr yn rhoi pŵer penodol i Weinidogion Cymru, fel yr awdurdod trwyddedu, roi cyfarwyddiadau o ran perfformiad swyddogaethau dirprwyedig o dan y Ddeddf. Mae Erthygl 11 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol

⁸ **Rheoliadau Gwaith Morol (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2007**

⁹ **Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010**

¹⁰ **Datganiad Polisi Morol y DU**. Llywodraeth y DU, Medi 2011

¹¹ **Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**

¹² **Y Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**

¹³ **Gorchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Diwygio) 2015**

Cymru (Sefydlu) 2012 yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch arfer ei swyddogaethau.¹⁴

3. Yr amserlen ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor

18. Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ar 21 Tachwedd 2017. Cyflwynodd y deisebydd ddogfen a oedd yn crynhoi nodau'r ddeiseb:

“The Campaign to re-assess the decision to permit the disposal of 300,000 tonnes of radioactively contaminated sediment at the Cardiff Grounds disposal site is concerned that the environmental and human health (dose) risks from the proposed disposal have not been adequately researched and that any conclusions based on the current incomplete data, are unreliable.”¹⁵

19. Ystyriodd y Pwyllgor ymateb i'r ddeiseb oddi wrth Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, hefyd. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryder ynglŷn â chanfyddiad y cyhoedd o'r mater hwn a rhoddodd i'r Pwyllgor ddatganiad ysgrifenedig y bu iddi ei gyflwyno ar 29 Medi. Roedd y datganiad yn nodi nad yw'r drwydded ar gyfer gwaredu gwastraff niwclear ac roedd yn cynnwys manylion am gefndir trwyddedu morol a'r drwydded hon yn benodol.¹⁶

20. Yn ei llythyr at y Pwyllgor Deisebau, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod gofyniad yn amodau'r drwydded i'r deunydd i'w waredu gael ei samplu a'i brofi, a bod angen cymeradwyaeth pellach gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y gellid gwared unrhyw ddeunydd. Pwysleisiodd na fyddai'r deunydd yn cael ei waredu oni bai fod canlyniadau'r gwaith samplu hwnnw yn cadarnhau'r farn bod y deunydd yn ddiogel ac yn addas i'w waredu.¹⁷

21. Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor lythyr a anfonwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn ddiweddar at Cyfoeth Naturiol Cymru,¹⁸ yn dilyn cyflwyniad gan EDF Energy i'r Pwyllgor. Roedd y llythyr yn gofyn nifer o gwestiynau manwl ac, o'r herwydd, cytunodd y Pwyllgor Deisebau

¹⁴ [Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru \(Sefydlu\) 2012](#)

¹⁵ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Tachwedd 2017 (PDF, 38KB)

¹⁶ [Datganiad ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig](#), 29 Medi 2017

¹⁷ [Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig at y Pwyllgor](#), 24 Hydref 2017 (PDF, 505KB)

¹⁸ [Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig at Cyfoeth Naturiol Cymru](#), 13 Tachwedd 2017 (PDF, 182KB)

i aros am gopi o ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunodd y Pwyllgor Deisebau hefyd, o ystyried maint y pryder cyhoeddus a fynegwyd drwy'r ddeiseb, i wahodd y deisebydd i roi tystiolaeth lafar yn y cyfarfod nesaf posibl.

22. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gyda'r deisebydd ar 5 Rhagfyr 2017. Yn yr un cyfarfod, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan EDF Energy, ar ôl cael cais gan y cwmni i wneud hynny.

23. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas mewn cyfarfod ar 9 Ionawr 2018. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Pwyllgor at Cyfoeth Naturiol Cymru ar 12 Ionawr 2018 i wneud sawl argymhelliad a gofyn am ragor o wybodaeth.

24. Yn dilyn hynny, bu'r Pwyllgor yn ystyried rhagor o dystiolaeth ysgrifenedig, gan gynnwys ymatebion gan Cyfoeth Naturiol Cymru, mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Chwefror a 17 Ebrill 2018, gan arwain at gyhoeddi'r adroddiad hwn.

25. Mae gweddill yr adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor.

4. Y dystiolaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau

4. 1. Y deunydd

26. Mae'r pryderon y tu ôl i'r ddeiseb yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnwys y deunydd i'w garthu a'i waredu. Agorwyd y ddeiseb oherwydd pryderon nad oedd y gwaddodion wedi'u profi'n ddigonol ac awgrymwyd bod y deunydd:

“[...] wedi'i halogi gan wastraff ymbelydrol a ryddhawyd i'r môr dros gyfnod o 50 mlynedd a mwy o waith ar safle Hinkley.”¹⁹

27. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, ceisiodd EDF wrthwynebu'r farn honno a datganiadau eraill a wnaed ynglŷn â chynnwys y gwaddodion:

“It has been referred to, inaccurately, as radioactive, nuclear and toxic waste, and that there may be risks to human health or the environment. The petition also claims that the testing is insufficient.

¹⁹ Testun y ddeiseb

I want to be completely clear today: all these claims are wrong, alarmist, and go against all internationally accepted scientific evidence. It is not radioactive and it poses no threat to human health or the environment. We know this because we have tested it independently three times using world-leading equipment to highly conservative standards. These standards are supported by Natural Resources Wales, Public Health Wales, the Environment Agency, the Centre for Environment, Fisheries and Aquaculture Science, the UK Government and the United Nations.

The petition fundamentally challenges the expertise of all these organisations. It takes issue with internationally accepted scientific practice, applied by international organisations and leading research and academic institutions. I would urge the committee to look at the scientific facts and the rigorous testing and licensing process we've been through.”²⁰

28. Nodwyd yn y dystiolaeth ysgrifenedig gan EDF:

“The sediment we and others are dredging in the Bristol Channel is typical of the sediment found anywhere in the Bristol Channel, and as such it is no different to the sediment already at the Cardiff Grounds. It is not classed as radioactive under UK law and poses no threat to human health or the environment.”²¹

29. Dywedodd y cwmni'r isod hefyd am y lefelau ymbelydredd a geir yn y gwaddodion:

“the very low levels of radioactivity identified in the sediment are predominantly naturally occurring (over 80%), with a small amount of artificial radioactivity, which will have originated from legacy discharges from hospitals, medical isotope manufacturing facilities (including those formerly based in Cardiff) and nuclear facilities. Whether the radioactivity is naturally occurring or artificial this has no impact on how it interacts with the human environment.”

[...]

²⁰ Cofnod y Trafodion – **5 Rhagfyr 2017**, paragraffau 137-8

²¹ EDF Energy – **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C**, a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ar 17 Tachwedd 2017 (PDF, 241KB)

Taking the naturally occurring and artificial radioactivity together, the levels are so low they pose no danger to human health or the environment.”²²

4. 2. Samplu a phrofi

30. Mae llawer o'r trafod a'r dadlau yn ystod ystyriaeth y Pwyllgor o'r ddeiseb wedi ymwneud â samplu, profi a dadansoddi'r gwaddodion.

31. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan EDF, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas yn disgrifio'r drefn samplu a phrofi a ddilynwyd mewn perthynas â'r cais a'r penderfyniad ynghylch y drwydded.²³ Dywedodd EDF fod y broses yn fethodoleg asesu geidwadol iawn a gydnabyddir yn rhyngwladol (gan yr International Atomic Energy Agency) a rhoddodd fanylion am hyn:

“The methodology conservatively assumes a member of the public spends around four hours per day every day on the shore near the Cardiff Grounds and consumes 50 kg of fish and 15 kg of crustacean and molluscs every year, all sourced from near the Cardiff Grounds. Exposure to the radioactivity in the sediment is also considered from inhaling any sediment that may accumulate on the shore.

[...]

Taking account of the natural and artificial radioactivity together, the dose received would be equivalent to:

- Eating 20 bananas each year (bananas contain potassium-40, a naturally occurring radionuclide)
- 10,000 times less than an airline pilot's annual dose
- 750 times less than the average dose received by a resident of Pembrokeshire (due to Radon)

[...]

This is an infinitesimally small level of exposure to radiation, far below the threshold requiring a more detailed assessment or even close to

²² EDF Energy - **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C**, a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ar 17 Tachwedd 2017 (PDF, 241KB)

²³ Er enghraifft, ar dudalen 3 o'r **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C** a gyflwynwyd gan EDF Energy, gan ymhelaethu ar hyn yn y sesiynau tystiolaeth lafar gydag EDF, Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas.

approaching a radiation dose that could impact human health or the environment.”²⁴

32. Mae'r deisebydd wedi herio casgliadau'r profion ar sawl sail a amlinellir yn yr adrannau a ganlyn. Yn gyffredinol, mae'n rhoi'r farn a ganlyn ynglŷn â'r profion:

“[...] failed to provide sufficient, coherent, conclusive and precise scientific data for the assessment of radiological impacts to the inhabitants and users / stakeholders of the south Wales inshore waters and coastal zone.”²⁵

Y mathau o ymbelydredd y gwnaed profion ar eu cyfer

33. Un o'r pryderon canolog yw'r ystod a'r math o ymbelydredd y gwnaed profion amdano. Mae'r deisebydd wedi dweud bod canlyniadau'r dadansoddiad samplu a gyflwynwyd yn awgrymu mai dim ond am ystod fach o ymbelydredd y gwnaed profion:

“[...] [a]cross the three surveys, only 3 of the 50+ Hinkley derived radionuclides known to have been discharged into the Bridgwater Bay sedimentary environment have been analysed for.”²⁶

34. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad o 2013, y cafodd Cefas ei gontractio i'w lunio fel rhan o'r broses o benderfynu ynghylch y drwydded forol, yn cwmpasu ystod lawn o radioniwclidau sy'n allyrru ymbelydredd gama:

“Samples were collected and analysed by gamma-ray spectroscopy to determine the levels of gamma emitting radionuclides (both man-made and naturally occurring) and results were reported for Am-241, Co-60, Cs-137, K-40, Ra-226, Th-232, U-238. In addition to these, the Am-241 data was used to derive estimates for Pu-239,240, Pu-241 and Pb-210. The activities of these alpha-emitting radionuclides were included in the same assessment.”²⁷

²⁴ EDF Energy – **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C**, a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ar 17 Tachwedd 2017 (PDF, 241KB)

²⁵ **Y deisebydd at y Pwyllgor**, 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

²⁶ **Y deisebydd at y Pwyllgor**, 2 Ionawr 2018 (PDF, 407KB)

²⁷ **Cyfoeth Naturiol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**, 21 Tachwedd 2017 (PDF, 224KB)

35. Roedd EDF wedi dweud wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y byddai'r dechneg a ddefnyddir yn canfod yr holl radioniwclidau artiffisial a oedd yn bresennol, yn ogystal â rhai naturiol:

“The analysis techniques used detect the presence of alpha, beta and gamma emitting radionuclides, rather than just testing for a few select radionuclides. Simply put, if a radionuclide is present it will be detected by the testing equipment.”²⁸

36. Cefas a gynhaliodd y profion, ac aeth ati i ddisgrifio'r broses²⁹ ar ôl clywed pwynt y deisebydd mai dim ond tri radioniwclid y cynhaliwyd profion arnynt:

“That’s not correct. We’ve reported three or four. The gamma spectrometry analyses all of the gamma-emitting radionuclides, so things like iron-59, manganese-54—all of those—but they would be below the detection limit. There is no point in doing a dose coefficient of a less than value that then results in no dose, so we only specifically report those radionuclides that are radio-sensitive and likely to give a dose. We analyse all gamma-emitting radionuclides.”³⁰

37. Pwysleisiodd Cefas fod y cyfrifiad “dos” yn fesur pwysicach o risg o ymbelydredd na phresenoldeb radioniwclidau penodol eu hunain:

“[...] in terms of the radiological significance, it’s not the number of nuclides nor the activities, it’s the impact of those in terms of risk, which we call ‘dose’. We have to convert that concentration into a dose unit and this is all agreed internationally as to how we do this, using dose coefficients. When we do the assessment, we look at the most radiologically significant radionuclides that are going to give the most significant dose. So, the assessment in total is not on the radionuclides that are present, per se; it’s on the effect of dose. That is the internationally agreed way of doing it.”³¹

38. Cyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at y cyfrifiad “dos” hefyd—a ganfu fod lefel yr ymbelydredd yn bodloni'r meini prawf *de minimis*—a'r ffaith ei fod yn hanfodol i'r penderfyniad i ddyfarnu'r drwydded:

²⁸ EDF Energy - **Papur Briffio ynghylch Gwaddodion Hinkley Point C**, a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau ar 17 Tachwedd 2017 (PDF, 241KB)

²⁹ Darparwyd disgrifiad llawn o'r broses a ddefnyddiwyd gan Dr Kins Leonard o Cefas yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar: **Cofnod y Trafodion** - 9 Ionawr 2018, paragraffau 325-330

³⁰ Cofnod y Trafodion - **9 Ionawr 2018**, paragraff 333

³¹ Cofnod y Trafodion - **9 Ionawr 2018**, paragraff 196

“The Cefas report concluded the total radiation doses to individual members of the public and (dredging) crew, and collective doses, were within de-minis criteria using assessment methodology developed by IAEA. The results of which were reviewed by NRW with support from the Environment Agency to support our decision to issue a marine licence. [...]

Our radioactive substances regulation specialist was also consulted on the 2013 radiological assessment. The specialist liaised with Environment Agency’s lead regulator for Hinkley. Both agreed that the Cefas report was an adequate assessment of the radiological impacts and agreed with its conclusion.”³²

39. Fodd bynnag, codwyd y cwestiwn a ddylai'r meini prawf *de minimis* fod wedi cael eu cymhwyso yn y cyd-destun hwn. Er enghraifft, mae Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro wedi honni bod y meini prawf hyn wedi cael eu datblygu gan yr IAEA ar gyfer gwaredu yn y môr ac nad ydynt yn addas yng nghyd-destun aber afon.³³

40. Felly, mae'n bosibl bod rhywfaint o'r anghytuno cychwynnol ynglŷn â pha mor ddiogel (neu anniogel) oedd y deunydd yn deillio o'r ffordd y cyflwynwyd y canlyniadau. Cyflwynwyd adroddiad ar y tri radioniwclid oedd â chanlyniadau uwchlaw'r trothwy isaf. Byddai'r dull hwn wedi dangos radioniwclidau eraill hefyd pe baent yn bresennol mewn lefelau digon arwyddocaol:

“[...] the data that give the raw results, include all of the gamma-emitting radionuclides, which are analysed and determined. Obviously, they're all less-than values, which are not in the report.”³⁴

41. Wrth ymateb i'r camddealltwriaeth hwn, awgrymodd y Pwyllgor i Cyfoeth Naturiol Cymru a Cefas y gallai fod yn werth sicrhau bod hyn yn glir yn y dyfodol. Ymatebodd Cefas:

“We can do that in the future, or we can make the comment that a list of other nuclides are below detection limits. I accept the point.”³⁵

42. Rhoddodd y deisebydd wybod i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2017 fod ei ymgyrch wedi gofyn am gopi o ganlyniadau'r data sbectrometreg gama a

³² **Cyfoeth Naturiol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**, 21 Tachwedd 2017 (PDF, 224KB)

³³ **Cyfeillion y Ddaear y Barri a'r Fro at y Pwyllgor**, 16 Ebrill 2018 (PDF, 630KB)

³⁴ Cofnod y Trafodion – **9 Ionawr 2018**, paragraff 211

³⁵ Cofnod y Trafodion – **9 Ionawr 2018**, paragraff 335

gynhyrchwyd gan Cefas er mwyn ceisio eu gwirio. Dywedodd y deisebydd wrth y Pwyllgor ei fod wedi cael y wybodaeth hon yn ystod mis Ionawr 2018.³⁶ Wrth gysylltu'n ddiweddarach, dywedodd nad oedd modd i'r ymgyrch ddadansoddi'r data yn llawn oherwydd problemau wrth gydweddu'r feddalwedd.³⁷

43. Fodd bynnag, mae'r deisebydd wedi awgrymu eto nad yw pob math o radioniwclid a gaiff ei ryddhau o orsafoedd pŵer niwclear Hinkley Point yn allyrru ymbelydredd gamma, ac felly ni fyddai'r dull sbectrometreg pelydr gamma yn adnabod pob un:

“The Campaign notes that Gamma Spectrometry did not, and could not, identify the presence or concentrations of Plutonium in the Hinkley sediments.

The Campaign draws attention to the fact that CEFAS were compelled to use the ‘derived estimate’ process to conclude that average Plutonium content of the Hinkley sediments for all 3 surveys exceeded all of the ‘positive’ findings for Americium 241 recorded by Gamma Spectrometry. The Campaign concludes that this fact alone is evidence that Gamma Spectrometry cannot and has not identified ALL of the radio nuclides present in the sediments.”³⁸

44. Nodwyd mewn adroddiad a luniwyd gan y deisebydd na fyddai'r fethodoleg a ddefnyddiwyd wedi bod yn fodd uniongyrchol o ganfod radioniwclidau eraill sy'n allyru ymbelydredd heblaw gamma:

“Non gamma emitters consist of a range of radio nuclides including a number of alpha and beta emitting Plutonium isotopes, Tritium (H3) and organically bound Tritium [...], Strontium 90, Carbon 14, Phosphorus 32 and a number of others. These radio nuclides must be analysed by other means such as radiochemistry, alpha analysis or liquid scintillation counting for extremely low-energy beta emitters.”³⁹

45. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Cefas ar 19 Ebrill 2018 i ofyn am ymateb i'r datganiadau hyn. Yn ei ymateb, cadarnhaodd Cefas nad yw dadansoddiad sbectrometreg gamma yn mesur radioniwclidau sy'n allyru ymbelydredd alffa a beta pur. Maent yn nodi bod cyfres o haenau i'r canllawiau a dderbynnir yn rhyngwladol ar gyfer asesu *de minimis* o safbwynt radiodegol. Mae hyn yn golygu:

³⁶ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 31 Ionawr 2018 (PDF, 29KB)

³⁷ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

³⁸ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

³⁹ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

“Cefas initially undertakes a generic radiological assessment (“first tier”) using the measured gamma-emitting radionuclide concentrations to determine a conservative level of risk from the gamma radionuclides (man-made and natural).

Conservative estimates are also calculated for alpha-emitting radionuclides ($^{239,240}\text{Pu}$ and ^{241}Pu , calculated from ^{241}Am measured data, and ^{210}Pb calculated from ^{226}Ra measured data) in the “first tier” assessment. Should the level of risk be determined as sufficient to have potential concern, furthermore detailed case specific assessments are undertaken.

Since the generic radiological assessment (first tier) procedure for sediment samples assessed from Hinkley Point indicated that doses received were well below the Internationally recommended limits, a subsequent more detailed case specific assessment was not necessary (including the measurement of alpha- and beta-emitting radionuclides).”⁴⁰

46. Mae'r deisebydd yn dadlau bod y dull hwn yn ddiffygiol. Dywed:

“Had Alpha analysis been deployed on the Hinkley sediments proposed for disposal at the Cardiff grounds site, the precise concentrations of alpha emitters in the sediments could have been quantified.”⁴¹

47. Mae Cefas wedi dweud ei fod yn defnyddio dulliau eraill, fel dull gwahanu radiocemeg, ac yna cyfrif alffa o dan amgylchiadau eraill, ond mewn asesiad radiolegol generig cychwynnol i bennu *de minimis*, nid oedd angen gwneud hynny.⁴²

48. Mae'r deisebydd hefyd wedi cwestiynu'r elfen “amserau cyfrif” yn y fethodoleg brofi, a chynigiodd y gallai amserau cyfrif hirach fod wedi arwain at ganlyniadau gwell:

“The Campaign notes that Gamma Spectrometry ‘counting’ times deployed during the CEFAS analysis are reported as approximately 15 hour duration.

⁴⁰ [Cefas at y Pwyllgor](#), 30 Ebrill 2018 (PDF, 433KB)

⁴¹ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

⁴² [Cefas at y Pwyllgor](#), 30 Ebrill 2018 (PDF, 433KB)

The Campaign references recent scientific studies which advise that research demonstrates that, for maximum efficiency of ID and quantification of lower level rates of radio activity concentration, count times exceeding 24 hours and up to 72 hours provide a far greater degree of identification and quantification accuracy.”⁴³

Dyfnnder y gwaith samplu

49. Pwynt cysylltiedig arall a godwyd tra bod y Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb yw'r canfyddiad nad oes digon o waith dadansoddi'n cael ei gynnal ar samplau dwfn. Mae hyn yn gysylltiedig â'r pryderon a fynegwyd bod data hanesyddol o orsafoedd pŵer niwclear yn nodi y gwnaed gollyngiadau yn y gorffennol a oedd yn uwch na'r hyn a ganiateir heddiw.⁴⁴

50. Ar ddechrau'r broses o ystyried y ddeiseb, dywedodd y deisebydd:

“The available evidence also implies that only surface samples (0-5cms deep) of the sediment have been analysed, despite the fact that core sample research from elsewhere in the Irish Sea demonstrates that, at depths below 5cms, radioactivity concentrations may be up to 5 times higher.”⁴⁵

51. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi clywed bod samplau wedi'u cymryd a'u profi yn 2009, 2013 a 2017. Cymerwyd y samplau o 2009 ar ddyfnnder o 4.8 metr. Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig:

“NRW is satisfied that no further analysis of samples from beneath the surface is necessary, because of the sampling that was undertaken at various depths in 2009.

There is no scientific evidence of higher radioactivity residing at depth in sediments in the Hinkley Area [...] Analysis of the monitoring provided by the application as well as the ongoing trend analysis of the results of the annual RIFE⁴⁶ monitoring programme, shows no indication that

⁴³ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Mawrth 2018 (PDF, 482KB)

⁴⁴ Cofnod y Trafodion – **5 Rhagfyr 2017**, paragraff 62

⁴⁵ [Y deisebydd at y Pwyllgor](#), 13 Tachwedd 2017 (PDF, 38KB)

⁴⁶ Caiff adrodiad blynyddol RIFE (Radioactive in Food and the Environment) ei lunio ar y cyd gan asiantaethau amgylcheddol ac asiantaethau bwyd ledled y DU. This report includes radiological monitoring of sediments at Hinkley Point.

